

COMISIYNYDD CYMRU


Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR 2021

Y dyddiad cau ar gyfer y swydd hon yw: 3 Medi 2021 am 17:00
o'r gloch

Dylid anfon ceisiadau at:
EHRC.publicappointments@cabinetoffice.gov.uk

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall
neu yn Saesneg, e-bostiwch
EHRC.publicappointments@cabinetoffice.gov.uk

 [Twitter](#) – Dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi gwag ar
gyfer apwyntiadau cyhoeddus

<http://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk>



Cynnwys

Neges gan y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb	1
Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal	1
Cefndir y Sefydliad	1
Rôl Comisiynydd EHRC Cymru	2
Manyleb y person a meini prawf cymhwysedd	3
Amodau'r penodiad	4
Amserlen ddangosol a sut i wneud cais	5
Hysbysiad Preifatrwydd	6
Sut y byddwn yn trin eich cais	8
Proses Gwyno	9
Safonau mewn bywyd cyhoeddus, gweithgarwch gwleidyddol, gwahardd rhag penodiad a gwrthdaro buddiannau	9

Neges gan y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb



Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Gomisiynydd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) Cymru.

Mae'r EHRC yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am hyrwyddo a gorfodi'r deddfau sy'n amddiffyn tegwch, urddas a pharch. Mae'n cyfrannu at wneud a chadw Prydain yn gymdeithas deg lle mae gan bawb, waeth beth fo'u cefndir, gyfle cyfartal i gyflawni eu potensial. Mae'r EHRC yn defnyddio ei

bwerau unigryw i herio gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal ac amddiffyn hawliau dynol.

Mae Comisiynydd Cymru yn cadeirio Pwyllgor statudol Cymru sydd â swyddogaethau pwysig. Mae prif ddyletswyddau'r Pwyllgor yn cynnwys cynghori'r Comisiwn ynghylch arfer ei bwerau i'r graddau eu bod yn effeithio ar Gymru. Mae gan y Pwyllgor bwerau wedi'u dirprwyo o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a gall arfer pwerau penodol yr EHRC yng Nghymru, gan gynnwys y rheini i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau a chynnal ymchwil yng Nghymru, ac i gynghori'r Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru ynghylch effaith deddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru. Yn ogystal, mae Pwyllgor Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei gynghori'n briodol wrth arfer ei swyddogaethau eraill yng Nghymru.

Bydd y tudalennau dilynol yn dweud mwy wrthyich am y pwrpas a'r Comisiwn a natur rôl y Comisiynydd.

Croesewir ceisiadau gan ystod mor amrywiol o ymgeiswyr a chymysgedd o gefndiroedd â phosib. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â meddylfryd ymarferol, egni, mewnwelediad a'r gallu i weithredu'n strategol. Dylai fod gennych ddealltwriaeth dda o gyd-destun cymdeithasol, economaidd a chyfreithiol Cymru, a hanes o ysgogi cynnydd ar gydraddoldeb a'r hygredded i herio eraill.

Os ydych chi'n credu bod gennych y profiad a'r rhinweddau rydym yn eu ceisio, ac os ydych yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, rydym yn edrych ymlaen yn fawr at glywed gennych chi.

Y Gwir Anrhydeddus Elizabeth Truss AS

Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal

Mae amrywiaeth cyfle yn rhywbeth y mae Swyddfa'r Cabinet yn angerddol amdano.

Anogir ceisiadau gan bob ymgeisydd ni waeth beth yw eu hethnigrwydd, crefydd neu gred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd neu hunaniaeth ryweddol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn arbennig gan y rhai nad ydynt wedi cynnal penodiadau cyhoeddus o'r blaen. Rydym am archwilio'r gronfa ddoniau ehangaf bosib ar gyfer y penodiadau pwysig hyn.

Cynnig Cyfweiliad i Bobl Anabl (Hyderus o ran Anabledd)

Fel cyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd, byddwn yn sicrhau y cynnig cyfweiliad i nifer teg a chymesur o ymgeiswyr anabl sy'n **bodloni'r meini prawf gofynnol** ar gyfer y swydd hon.

[Mae Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn diffinio unigolyn fel rhywun anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol a bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Os ydych am nodi eich bod yn anabl neu fod gennych gyflwr iechyd hirdymor, cwblhewch **y datganiad Hyderus o ran Anabledd – Cynnig Cyfweiliad i Bobl Anabl** yn y dogfennau ategol a'i anfon gyda'ch cais.

Mae'n bwysig nodi, ar ôl derbyn nifer fawr o geisiadau, y byddai disgwyl i ni gynnig nifer cymesur o gyfweiliadau i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd.

Addasiadau Rhesymol

Os oes gennych anabledd a bod angen addasiadau rhesymol arnoch i'ch galluogi i ddod i'ch cyfweiliad, rhowch wybod i ni pan ddychwelwch eich cais neu cysylltwch â Thîm Nawdd EHRC EHRC.publicappointments@cabinetoffice.gov.uk neu Pina Sadar, Pennaeth Tîm ALB y Hyb Cydraddoldeb, yn pina.sadar@cabinetoffice.gov.uk.

Arferion gweithio hyblyg

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cefnogi arferion gweithio hyblyg, ac fel sefydliad cenedlaethol, mae ganddo fideo-gynadledda ar gael ar gyfer cyfathrebu rhwng swyddfeydd rhanbarthol a chanolog. Fodd bynnag, mae angen i aelodau ei Fwrdd allu mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau, a gynhelir yn Llundain yn bennaf.

Cefndir y Sefydliad

Yr EHRC yw corff cydraddoldeb cenedlaethol Prydain Fawr, ac mae wedi derbyn statws 'A' fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol (NHRI) gan y Cenhedloedd Unedig. Ei rôl yw helpu i wneud Prydain yn decach, ac mae'n cyflawni hyn trwy ddiogelu a gorfodi'r deddfau sy'n amddiffyn hawliau pobl i degwch, urddas a pharch.

Fel corff cyhoeddus anadrannol statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, mae'r Comisiwn yn gweithredu'n annibynnol. Ei nod yw bod yn sefydliad arbenigol ac awdurdodol sy'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer tystiolaeth, dadansoddi a chyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r EHRC hefyd yn anelu at fod yn bwynt cyswllt hanfodol i lunwyr polisi, cyrff cyhoeddus a busnes.

Mae'r EHRC yn defnyddio ei bwerau unigryw i herio gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal ac amddiffyn hawliau dynol.

I gael rhagor o wybodaeth am y Comisiwn, ewch i'w wefan yn www.equalityhumanrights.com.

Maint a chyfansoddiad y Bwrdd

Bwrdd y Comisiynwyr yw'r corff gwneud penderfyniadau ar y lefel uchaf yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth strategol y Comisiwn.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnwys 10 Aelod. Rhestrir aelodau'r Bwrdd isod, ac mae gwybodaeth fywgraffyddol am bob Aelod o'r Bwrdd ar [wefan yr EHRC](#).

- Kishwer, Barwnes Falkner o Margravine (Cadeirydd)
- Caroline Waters OBE (Dirprwy Gadeirydd)
- Suzanne Baxter
- Jessica Butcher MBE
- Pavita Cooper
- David Goodhart
- Alasdair Henderson
- Susan Johnson OBE
- Helen Mahy CBE
- Mark McLane
- Bernard, Barwn Ribeiro o Achimota (Ghana) ac Ovington (Hants) CBE; FRCS
- Dr Lesley Sawers OBE (Comisiynydd yr Alban)
- Su-Mei Thompson

Mae gan y Bwrdd rôl goruchwyllo strategol. Nid yw'n rheoli gweithrediadau'r Comisiwn yn uniongyrchol, ond mae'n dirprwyo'r rôl honno i'r Prif Swyddog Gweithredol a staff y Comisiwn. Mae'n dwyn y Prif Swyddog Gweithredol a'r staff i gyfrif trwy fonitro perfformiad yn ôl blaenoriaethau strategol y Comisiwn a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am yr EHRC a'i weithgareddau, gan gynnwys ei adroddiad blynyddol diweddaraf, ar [wefan yr EHRC](#).

Rôl Comisiynydd EHRC Cymru

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol a'r Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb yn dymuno penodi Comisiynydd Cymru i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).

Mae'r penodiad hwn yn cyflawni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2006, sef bod rhaid i aelodaeth y Comisiwn gynnwys Comisiynydd sy'n gwybod am amgylchiadau yng Nghymru ("Comisiynydd Cymru"). Gwneir y penodiad hwn â chydysniad Gweinidogion Cymru.

Mae penodiadau i'r EHRC am gyfnodau rhwng 2 a 5 mlynedd. Yn dilyn argymhellion Adolygiad Pwrpasol yr EHRC ym mis Gorffennaf 2018, mae telerau'r Comisiynwyr yn debygol o fod yn isafswm o 3 blynedd.

Nodir rolau a chyfrifoldebau Comisiynwyr EHRC yn [Llawlyfr Llywodraethu'r Comisiwn](#).

Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am:

- gweithio gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i osod cyfeiriad strategol yr EHRC;
- craffu ar berfformiad yr EHRC, a chefnogi'r Cadeirydd i ddwyn y Prif Weithredwr i gyfrif; a
- cydymffurfio bob amser â'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrrff Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet](#) (2011) a Chod Ymddygiad a chanllawiau gwrthdaro buddiannau EHRC (Rhan 4 *Llawlyfr Llywodraethu EHRC*).

Yn ogystal â chyfrifoldebau Comisiynwyr EHRC, fel y nodir yn Llawlyfr Llywodraethu'r Comisiwn, mae gan Gomisiynydd Cymru gyfrifoldebau penodol o ran y materion canlynol:

- Cadeirio Pwyllgor Cymru;
- Ymgysylltu â phwyllgorau a gweithgornau EHRC eraill ar faterion Cymru a Phrydain Fawr;
- Cyfrannu at y broses o gynghori Llywodraeth Cymru ar effeithiolrwydd cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol, a goblygiadau unrhyw newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol fel y maent yn ymwneud â Chymru;
- Cyfrannu at ddatblygiad adroddiad blynyddol, cynllun strategol a blaenoriaethau busnes yr EHRC ar gyfer Cymru;
- Cynrychioli'r EHRC yng Nghymru, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned i hyrwyddo blaenoriaethau'r EHRC.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r rôl ym mis **Rhagfyr 2021**.

Manyleb y person a meini prawf cymhwysedd

Meini prawf hanfodol

Rhaid i bob ymgeisydd ddangos, yn eu CV a'u llythyr ategol, sut maen nhw'n bodloni'r meini prawf dehol ar gyfer y swydd, trwy eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad.

Rhaid i ymgeiswyr allu arddangos:

- Profiad o arweinyddiaeth ar lefel uwch a'r gallu i weithio ar y cyd a chadeirio ar lefel y Bwrdd, gan gynnwys yr hygrededd i herio eraill yn effeithiol;
- Y gallu i feithrin perthnasoedd adeiladol a dylanwadu ar y lefel uchaf, a gweithredu fel llysgennad i'r Comisiwn, yn arbennig yng Nghymru, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol a hyrwyddo rôl a nodau'r sefydliad i'r cyhoedd ac ystod eang o bartneriaid;
- Y gallu i ddarparu safbwyntiau strategol, gwybodus, diduedd a chytbwys ar ystod o faterion sensitif a chymhleth, a chyfrannu at ddatblygu blaenoriaethau strategol, gan bwysu a mesur dadleuon cystadleuol y gellir eu cyfiawnhau o dan graffu agos;
- Ymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol a gwybodaeth neu brofiad ohonynt;
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun y mae'r Comisiwn yn gweithredu ynddo (mae cyfrifoldebau a mandad y Comisiwn yn cynnwys gwahanol genhedloedd Prydain Fawr) a gwybodaeth am amgylchiadau yng Nghymru a'u perthynas â pholisi mewn rhannau eraill o Brydain Fawr;
- Safonau uchel o uniondeb, ymrwymiad i werthoedd gwasanaeth cyhoeddus, a dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion llywodraethu corfforaethol.

Meini prawf dymunol

- Y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Asesir ymgeiswyr yn ôl y meini prawf hyn yn eu cais ac unrhyw gyfweiliad dilynol.

Ar gyfer y swydd hon, ni ellir penodi unigolyn yn Aelod o'r Bwrdd os yw'n cael ei gyflogi yng ngwasanaeth sifil y wladwriaeth, os oes ganddo euogfarnau troseddol sydd heb eu disbyddu, yn destun methdaliad, neu ei anghymhwysu fel cyfarwyddwr cwmni. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau ar gyflogaeth, na therfyn ar eich arhosiad a ganiateir yn y DU.

Amodau'r penodiad

Tâl, lwfansau ac atal

- Y lwfans per diem a delir i'r Comisiynydd yw **£400 y dydd**.
- Mae tâl yn drethadwy o dan Atodlen E Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988 (fel y'i diwygiwyd) ac yn ddarostyngedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth I.
- Bydd costau teithio safonol rhesymol yn daladwy.
- Nid yw'r swydd yn bensiynadwy.

Penodi a deiliadaeth swydd

Penodir Aelodau'r Bwrdd gan y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb. Mae penodiadau i'r EHRC am gyfnodau rhwng 2 a 5 mlynedd. Yn dilyn argymhellion Adolygiad Pwrpasol yr EHRC ym mis Gorffennaf 2018, mae telerau'r Comisiynwyr yn debygol o fod am o leiaf 3 blynedd, â'r posibilrwydd o gael eu hailbenodi am dymor pellach, yn ôl disgrisiwn y Gweinidogion. Bydd unrhyw ailbenodiad yn destun arfarniadau blynyddol boddhaol o berfformiad yn ystod tymor cyntaf y swydd. Os cewch eich ailbenodi, ni fydd cyfanswm yr amser a wasanaethir yn y swydd yn fwy na dau dymor.

Bydd yn bwysig nad yw ymrwymadau eraill Aelod yn bwrw unrhyw amheuaeth ar ei allu i weithredu'n annibynnol ac yn ddiuedd wrth gyflawni'r rôl; rhaid datgan unrhyw wrthdrawiad buddiannau posib.

Mae'n ofynnol i holl Aelodau'r Bwrdd gadw at:

- [Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus](#)
- [Saith Eglyddor Bywyd Cyhoeddus](#)

Arfarniad perfformiad

Bydd aelodau'r bwrdd yn cael eu hasesu o leiaf unwaith y flwyddyn ar eu perfformiad ar gyfer pob blwyddyn o'u penodiad, y'i cynhelir gan Gadeirydd yr EHRC.

Ymrwymiad

Disgwylir i Aelodau'r Bwrdd ymrwymo oddeutu 1-2 ddiwrnod y mis (hyd at 25 diwrnod y flwyddyn) i:

- Mynychu cyfarfodydd, a gynhelir fel arfer yn un o brif swyddfeydd yr

EHRC;

- Teithio i fynychu cyfarfodydd ac ymweliadau mewn swyddfeydd eraill ledled y wlad;
- Darllen ac ystyried papurau y tu allan i gyfarfodydd.

Amserlen ddangosol a sut i wneud cais

Amserlen ar gyfer recriwtio

Dyddiad cau: **3 Medi 2021**

Llunio rhestr fer: **21 Medi 2021**

Cynnal cyfweiliadau: **15 Hydref 2021**

Dyddiad cychwyn apwyntiad dros dro: **1 Rhagfyr 2021**

Cynhelir cyfweiliadau o bell trwy'r platfform fideo-gynadledda Google Meet.

Er mwyn i ni symud ymlaen â'ch cais, cyflwynwch y ddogfennaeth ganlynol:

1. **Curriculum Vitae** (tair ochr A4 ar y mwyaf) yn amlinellu'ch addysg, cymwysterau proffesiynol a'ch hanes cyflogaeth llawn.
2. Llythyr Ategol **cysylltiedig** (dwy ochr A4 ar y mwyaf) - yn nodi eich addasrwydd ar gyfer y rolau a sut rydych yn bodloni'r sgiliau hanfodol a dymunol a nodir ym manyleb y person - gwnewch yn siŵr bod eich enw llawn wedi'i nodi'n glir ar frig eich llythyr.
3. **Cwblhau'r Ffurflen Ffonitro ar-lein**, sydd i'w gweld [yma](#). Ni fydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn Adran A yn cael ei defnyddio fel rhan o'r broses ddethol ac ni fydd y panel cyfweld yn ei gweld. Gellir dod o hyd i wybodaeth i helpu i ateb y cwestiynau hyn ar y wefan Penodiadau Cyhoeddus. Os cewch unrhyw broblemau wrth gyrchu'r ffurflen fonitro, cysylltwch ag EHRC.publicappointments@cabinetoffice.gov.uk.
4. Os yw'n berthnasol, cwblhewch y **Cynllun Hyderus o ran Anabledd ar gyfer pobl anabl**, sydd wedi'i atodi i'r hysbyseb.
5. **Enwau a manylion cyswllt dau ganolwr**, y cysylltir â nhw os cyrhaeddwch y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad.

Anfonwch yr holl ddogfennau gofynnol uchod ar gyfer y cais at EHRC.publicappointments@cabinetoffice.gov.uk. Os na allwch e-bostio'ch cais, gallwch ei anfon yn y post at:

Tim Nawdd EHRC (ar gyfer: Penodiadau Cyhoeddus EHRC)
Government Equalities Office
Sanctuary Buildings
Great Smith St
Westminster
Llundain SW1P 3BT.

Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau yn Gymraeg.

Cysylltwch ag EHRC.publicappointments@cabinetoffice.gov.uk os oes angen yr hysbyseb hon arnoch ar ffurf arall, gan esbonio'r hyn sydd ei angen arnoch a pham mae angen fformat arall arnoch. Sylwer y gellir darparu pob dogfen yn Gymraeg ar gais.

Sylwer y cynhelir diwydrwydd dyladwy yn ystod y broses ymgeisio, gan gynnwys chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a chyfryngau cymdeithasol, blogiau neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae rhagor o fanylion ar ddefnyddio gwybodaeth bersonol isod.

Sylwer hefyd y gellir trosglwyddo ceisiadau, yn gyfrinachol, i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (CPA) ac archwilwyr y Comisiynydd at ddibenion ymchwilio ac archwilio cwynion (4.4 o God Penodiadau Cyhoeddus y Llywodraeth).

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau. Cyhoeddir yr hysbysiad yn unol ag Erthyglau 13 ac/neu 14 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Eich data

Diben

Y dibenion rydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer yw:

- Ystyried ceisiadau am rolau gwag i Gomisiynwyr y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan gynnwys y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, Comisiynwyr yr Alban a Chymru a Chomisiynwyr safonol. Mae ein hymgyrchoedd recriwtio yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, ac yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.
- Asesu ac archwilio ymgeiswyr y gellir eu penodi, gan gynnwys cael data o lythyrau ategol a chanolwyr.
- Monitro amrywiaeth ein hymgeiswyr a'n penodedigion.

Y data

Byddwn yn prosesu'r data personol dilynol: Enwau a chyfeiriadau, rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost, CV, cefndir addysgol, gwrthdaro buddiannau posib a gweithgarwch gwleidyddol, llythyrau ategol neu ddatganiadau am eich addasrwydd ar gyfer y swydd. Byddwn hefyd yn prosesu delweddau os yw'r rhain wedi'u gwirfoddoli, er nad ydym yn gofyn am y rhain oni bai y cewch eich penodi. Rydym yn defnyddio'r data hyn i brosesu ceisiadau ac i asesu ymgeiswyr. Byddwn hefyd yn eu defnyddio i benodi ymgeiswyr ac i briodoli'r lefel briodol o ffioedd. (Telir ffioedd a threuliau gan yr EHRC.)

Ar gyfer ymgeiswyr penodadwy, byddwn yn prosesu data a ddarperir gan ganolwyr, a byddwn yn cynnal diwydrwydd dyladwy gan ddefnyddio ffynonellau data cyhoeddus, gan gynnwys eich proffiliau cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn prosesu data canolwyr a'r rhai sy'n darparu datganiadau ategol, a fydd yn gyffredinol yn cynnwys enwau, manylion cyswllt a barn.

Rydym yn casglu data amrywiaeth ar ffurflen ar wahân. Ni ddefnyddir y data hyn i wneud penderfyniadau penodi, fe'i defnyddir at ddibenion monitro cydraddoldeb yn unig. Rydym yn casglu rhywedd, tarddiad hiliol neu ethnig, cred grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabled, a phriodas neu bartneriaeth sifil.

Sail gyfreithiol prosesu

Dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol:

- Mae'n angenrheidiol cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol a osodir arnom fel

y rheolwr data: i'r Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb benodi rhwng 10-15 Comisiynydd i Fwrdd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2006.

- Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn y rheolwr data. Yn yr achos hwn, dyna swyddogaeth gyhoeddus Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth i nodd i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn y rheolwr data. Yn yr achos hwn, dyna swyddogaeth gyhoeddus Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth i nodd i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Data personol sensitif yw data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometreg at ddibenion adnabod person naturiol yn unigryw, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.
- Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol sensitif, ac unrhyw ddata am gollfarnau troseddol sy'n ymwneud â recriwtio ac archwilio yw: Mae angen prosesu am resymau sydd er budd sylweddol y cyhoedd i arfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron, neu adran y llywodraeth; neu arfer swyddogaeth a roddir i berson trwy ddeddfiad.
- Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol sensitif sy'n ymwneud â monitro amrywiaeth yw: Mae'r prosesu yn cynnwys data sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, cred grefyddol neu athronyddol, iechyd gan gynnwys anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol, mae'n angenrheidiol at ddibenion nodi neu barhau i adolygu bodolaeth neu absenoldeb cyfle neu driniaeth gyfartal rhwng grwpiau o bobl â'r bwriad o hyrwyddo neu gynnal cydraddoldeb o'r fath.

Derbynwyr

Byddwn yn rhannu eich data personol gyda:

- Panel sifftio sy'n cynnwys swyddogion Swyddfa'r Cabinet ac EHRC;
- Y Panel Asesu Cyngori (dethol), sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer rolau;
- Am y bydd eich data personol yn cael eu storio ar ein seilwaith TG, bydd hefyd yn cael eu rhannu gyda'n proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau e-bost, rheoli dogfennau a storio.

Cadw

Byddwn yn cadw'ch data personol am ddwy flynedd yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.

Lle na chafwyd data personol gennych

Cafwyd eich data personol gennym o ffynonellau data cyhoeddus.

Eich hawliau

- Mae gennych yr hawl i ofyn am wybodaeth ynghylch sut y caiff eich data personol eu prosesu, ac i ofyn am gopi o'r data personol hynny.
- Mae gennych yr hawl i ofyn am gael cywiro unrhyw wallau yn eich data personol yn ddi-oed.
- Mae gennych yr hawl i ofyn i unrhyw ddata personol anghyflawn gael eu cwblhau, gan gynnwys drwy ddatganiad atodol.
- Efallai y bydd gennych hawl i ofyn i'ch data personol gael ei ddileu os nad oes cyfiawnhad bellach iddynt gael eu prosesu.

- Mae gennych yr hawl o dan rai amgylchiadau (er enghraifft, lle caiff cywirdeb ei herio) i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol.
- Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu'ch data personol.

Trosglwyddiadau data rhngwladol

Am fod eich data personol yn cael eu storio ar ein seilwaith TG, a'u rhannu â'n proseswyr data, gellir eu trosglwyddo a'u storio'n ddiogel y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Os felly, bydd yn destun amddiffyniad cyfreithiol cyfatebol trwy ddefnyddio Cymalau Contract Enghreifftiol.

Manylion cyswllt

Y rheolydd data ar gyfer eich data personol yw Swyddfa'r Cabinet. Manylion cyswllt y rheolydd data yw: Cabinet Office, 70 Whitehall, Llundain, SW1A 2AS, neu 0207 276 1234, neu publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk.

Manylion cyswllt rheolwr data'r Swyddog Diogelu Data yw: Stephen Jones, Data Protection Officer, Cabinet Office, Room 405, 70 Whitehall, Llundain, SW1A 2AS, or dpo@cabinetoffice.gov.uk.

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu cyngor a monitro annibynnol ynghylch defnydd Swyddfa'r Cabinet o wybodaeth bersonol.

Cwynion am ddefnyddio data personol

Os ydych o'r farn bod eich data personol wedi'u camddefnyddio neu eu cam-drin, gallwch gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu 0303 123 1113, neu casework@ico.org.uk. Ni fydd unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn amharu ar eich hawl i geisio iawn trwy'r llysoedd.

Sut y byddwn yn trin eich cais

Mae'r broses yn un o gystadlaethau teg ac agored, yn unol â [Chod Llywodraethu y Llywodraeth ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus](#).

Byddwn yn delio â'ch cais cyn gynted â phosib a byddwn yn eich hysbysu ar gamau allweddol:

- Ar ôl y dyddiad cau, byddwn yn cydnabod derbyn eich cais (trwy e-bost os ydych wedi darparu cyfeiriad).
- Caiff eich cais ei asesu yn ôl proffil yr ymgeisydd a'ch profiad sy'n berthnasol i'r swydd. **Sicrhewch fod eich cais yn cynnwys llythyr ategol (fel y nodir uchod), yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf. Ni fydd cyflwyno Cwricwlwm Vitae yn unig yn ddigonol.**
- Yn y cyfarfod llunio rhestr fer, bydd y panel dethol yn penderfynu pa ymgeiswyr fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, gan ystyried y dystiolaeth a ddarperir gan yr ymgeiswyr. **Fe'ch hysbysir o ganlyniad eich cais (trwy e-bost) cyn gynted â phosib. Os byddwch yn llwyddiannus, fe'ch gwahoddir i gyfweiliad, sy'n debygol o ddigwydd ar-lein.**
- Efallai y bydd y Gweinidog cyfrifol am gwrdd â'r ymgeiswyr y mae'r panel dethol yn eu hystyried yn benodadwy. Fe'ch cynghorir ar ôl y cyfweiliad os dyna'r achos, a threfnir amser sy'n addas i bawb cyn gynted â phosib.
- Os yw'ch cais yn aflwyddiannus ac yr hoffech gael adborth, ysgrifennwch at yr e-bost neu'r cyfeiriad post yr anfonoch eich cais ato. Mae'n ddrwg

gennym mai dim ond i ymgeiswyr sydd wedi bod yn aflwyddiannus yn y cam cyfweld y gallwn gynnig adborth manwl.

- Os oes gennych gŵyn am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais ar unrhyw gam o'r broses, gweler yr adran ar y broses gwyno isod.

Cliriad Diogelwch

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Chliriad Diogelwch yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Sifil, yr ydym yn rhagweld y bydd ar lefel sylfaenol.

Proses Gwyno

Os nad ydych yn hollol fodlon: yn y lle cyntaf, cysylltwch ag EHRC.publicappointments@cabinetoffice.gov.uk, neu Pina Sadar, Pennaeth Tîm ALB yr Hyb Cydraddoldeb yn pina.sadar@cabinetoffice.gov.uk.

Byddwn yn ymateb i'ch cwyn o fewn 20 diwrnod. Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
Room G/8, Ground Floor
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849

Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y gweithdrefnau'n deg. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a Chod Llywodraethu'r Llywodraeth ar Benodiadau Cyhoeddus ar gael ar [wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus](#).

Bydd eich ymateb yn ddiennw a bydd yn llywio gwaith parhaus y Comisiynydd ag Adrannau'r Llywodraeth i wella'r broses penodiadau cyhoeddus.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus, gweithgarwch gwleidyddol, gwahardd rhag penodiad a gwrthdaro buddiannau

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd angen i aelodau'r EHRC gadarnhau eu bod yn deall y safonau cywirdeb sy'n ofynnol gan benodedigion cyhoeddus a amlinellir yn y "[Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#)" a luniwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

Gweithgarwch Gwleidyddol

Bydd angen i aelodau'r EHRC ddangos didueddrwydd gwleidyddol yn ystod eu hamser ar Fwrdd yr EHRC, a rhaid iddynt ddatgan unrhyw weithgarwch gyda phlaid wleidyddol y maent yn ymgymryd ag ef yng nghyfnod eu penodiad.

Oherwydd natur yr EHRC, nid yw'n briodol i aelodau'r EHRC gael swyddi gwleidyddol â thâl gyda phlaid na dal swyddi sensitif, uwch neu amlwg mewn unrhyw sefydliad gwleidyddol. Nid yw cael eich enwebu i'ch ethol i swydd wleidyddol, er enghraifft, Tŷ'r Cyffredin, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, Senedd Ewrop, yn cael ei ystyried yn gydnaws ag aelodaeth o'r EHRC.

Yn amodol ar yr uchod, mae aelodau'r Bwrdd yn rhydd i gymryd rhan mewn

gweithgareddau gwleidyddol, ar yr amod eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u safonau cyffredinol ar gyfer bywyd cyhoeddus ac yn arfer disgresiwn priodol.

Mae'n ofynnol i chi lenwi Datganiad Gweithgarwch Gwleidyddol fel rhan o'ch cais, a fydd yn cael ei gadw ar wahân i'ch cais ac y bydd y panel dethol yn ei weld cyn y cyfweiliad yn unig. Fodd bynnag, gwerthfawrogir y gallai gweithgareddau o'r fath fod wedi rhoi sgiliau perthnasol i chi, gan gynnwys profiad a gafwyd o waith pwyllgor, gwneud penderfyniadau ar y cyd, datrys gwrthdaro a siarad yn gyhoeddus. Felly, os ydych wedi cael profiad o'r fath a'ch bod yn ei ystyried yn berthnasol i'ch cais am y swydd hon, dylech ei gynnwys ar wahân ym mhrif gorff eich cais.

Os cewch eich penodi i'r swydd, bydd manylion eich ymateb i'r Datganiad Gweithgarwch Gwleidyddol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gyhoeddiad o'ch penodiad.

Anghymhwysu rhag penodi

Ni fydd unrhyw un yn y categorïau a restrir isod yn cael eu hystyried i'w penodi'n Aelod o Fwrdd yr EHRC (gweler hefyd 'Gweithgarwch Gwleidyddol' uchod):

- Wedi'ch cyflogi yng ngwasanaeth sifil y wladwriaeth
- Euogfarnau troseddol heb eu disbyddu
- Methdaliad
- Wedi'ch anghymhwysu fel cyfarwyddwr cwmni

Gwrthdaro Buddiannau

Disgwylir i gyrff cyhoeddus gynnal cofrestr o fuddiannau aelodau er mwyn osgoi unrhyw berygl i'r Aelod Bwrdd gael ei ddylanwadu - neu ymddangos ei fod yn cael ei ddylanwadu - gan eu buddiannau preifat wrth arfer eu dyletswyddau cyhoeddus. Bydd ymgeiswyr a wahoddir i gyfweiliad yn cael eu holi am unrhyw wrthdaro buddiannau go iawn neu ganfyddedig. Nid yw'r rhain yn gyfystyr â gwaharddiad awtomatig i benodi, ond rhaid iddynt fod yn ddichonadwy.